# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 11 Hydref 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13521

## 163

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1-4 a 6-9. Tynnwyd cwestiwn 5 yn ôl. Atebwyd cwestiynau 1, 4, 6 and 9 gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Dechreuodd yr eitem am 14.23

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

Dechreuodd yr eitem am 15.21

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn.

## 4 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.50

Atebwyd gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyhoeddiad y Swyddfa Gartref ynglŷn â rhoi'r gorau i gynlluniau i gartrefu ceiswyr lloches yng Ngwesty Parc y Strade, Llanelli?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 16.03

Gwnaeth **Jayne Bryant** ddatganiad am - Wythnos Gofal Hosbis (9-15 Hydref).

Gwnaeth **Gareth Davies** ddatganiad am - Gwledd Eirin Dinbych (7 Hydref).

Gwnaeth **Mabon ap Gwynfor** ddatganiad am - Prosiect y Tŵr Pwllheli.

## 6 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Bil i hyrwyddo perchnogaeth gyfrifol ar gŵn

Dechreuodd yr eitem am 16.08

**NDM8368** Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil i hyrwyddo perchnogaeth gyfrifol ar gŵn.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) hyrwyddo diogelwch cymunedol yn dilyn nifer cynyddol o ymosodiadau difrifol gan gŵn ledled Cymru gan gynnwys rhai marwolaethau trasig;

b) cyflwyno canllawiau a rheoliadau i unrhyw un sy'n dymuno bod yn berchen ar fridiau cŵn penodol, lle mae'n rhaid i berchnogion gyflawni meini prawf penodol i fod yn berchen ar gi a allai fod yn beryglus;

c) ymgynghori â rhanddeiliaid i sefydlu diffiniad o gi a allai fod yn beryglus;

d) gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sefydlu partneriaethau i weinyddu'r rheoliadau a chyflawni dull gweithredu cyson ar draws Cymru; ac

e) hyrwyddo mentrau lleol a chenedlaethol gyda'r nod o wella lles anifeiliaid, gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd ac addysgu'r cyhoedd ynghylch perchnogaeth gyfrifol ar gŵn.

**Cefnogwyr**

Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl Plaid Cymru – Cyllid canlyniadol HS2

Dechreuodd yr eitem am 16.42

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8375** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu bod HS2 yn brosiect i Loegr yn unig.

2. Yn gresynu bod Llywodraeth y DU wedi gwrthod darparu'r cyllid canlyniadol llawn y dylai Cymru ei gael o ganlyniad i HS2.

3. Yn gresynu hefyd fod Plaid Lafur y DU yn gwrthod cytuno y dylai Cymru gael y cyllid canlyniadol llawn.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i unioni'r cam hwn, a darparu'r cyllid sy'n ddyledus i Gymru ar unwaith, fel y gallwn fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith y mae'r Senedd hon yn dymuno eu blaenoriaethu, gan gynnwys trydaneiddio pob rheilffordd yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 38 | 48 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn credu y dylai Cymru dderbyn cyllid canlyniadol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 34 | 48 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu pwyntiau 3 a 4 a rhoi yn eu lle:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i gefnogi rhaglen gynhwysfawr o fuddsoddi yn rheilffyrdd Cymru a fydd yn cael ei datblygu a'i chymeradwyo gan Fwrdd Rheilffyrdd ar y Cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 0 | 14 | 48 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM8375** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu bod HS2 yn brosiect i Loegr yn unig.

2. Yn gresynu bod Llywodraeth y DU wedi gwrthod darparu'r cyllid canlyniadol llawn y dylai Cymru ei gael o ganlyniad i HS2.

3. Yn galw ar Lywodraeth y DU i gefnogi rhaglen gynhwysfawr o fuddsoddi yn rheilffyrdd Cymru a fydd yn cael ei datblygu a'i chymeradwyo gan Fwrdd Rheilffyrdd ar y Cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 0 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Iechyd meddwl

Dechreuodd yr eitem am 17.23

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8374** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi mai dydd Mawrth 10 Hydref yw Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd.

2. Yn croesawu sefydlu gwasanaeth 24/7 111 pwyso 2 GIG Cymru.

3. Yn gresynu:

a) bod hunan-niwed yn un o'r pum prif resymau am dderbyniadau meddygol a bod cyfraddau hunanladdiad ar gynnydd;

b) bod nifer y plant sy'n aros mwy na 4 wythnos am eu hapwyntiad iechyd meddwl cyntaf yng Nghymru ar gynnydd; ac

c) nad yw iechyd meddwl yn cael ei drin â'r un flaenoriaeth ag iechyd corfforol.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyflwyno deddf iechyd meddwl newydd i Gymru i wella mynediad at gymorth a thriniaeth iechyd meddwl i gleifion a'u teuluoedd a sicrhau cydraddoldeb o ran iechyd meddwl ac iechyd corfforol;

b) sicrhau bod gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl a llesiant yn cynyddu mewn termau real bob blwyddyn er mwyn ateb y galw am wasanaethau iechyd meddwl;

c) ymrwymo i ddarparu uned anhwylderau bwyta benodedig ar gyfer cleifion mewnol yng Nghymru; a

d) sicrhau bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn cynnig hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl i'w staff.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 34 | 48 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth ar ôl pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn nodi:

a) bod atal hunanladdiad a hunan-niweidio yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru;

b) mai iechyd meddwl yw'r maes gwario uchaf o hyd gan y GIG yng Nghymru.

Yn cytuno y dylai iechyd meddwl gael ei drin â'r un flaenoriaeth ag iechyd corfforol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 25 | 49 |

**Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 2** [Heledd Fychan (Canol De Cymru)]

Mewnosod fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

y bu diffyg addysg a dealltwriaeth ynghylch iechyd meddwl

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 25 | 49 |

**Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 3** [Heledd Fychan (Canol De Cymru)]

Mewnosod fel is-bwyntiau newydd ar ddiwedd pwynt 4:

gwneud iechyd meddwl amenedigol yn flaenoriaeth yn Strategaeth Iechyd Meddwl newydd y Llywodraeth;

sicrhau bod gan bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda menywod yn y cyfnod amenedigol y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol o iechyd meddwl amenedigol;

sicrhau bod gan bob gwasanaeth mamolaeth isafswm o fydwragedd arbenigol amenedigol Band 7 cyfwerth ag amser llawn;

sicrhau bod pob gweithiwr mamolaeth proffesiynol yn gofalu am iechyd meddwl yr un graddau ag iechyd corfforol yn ystod beichiogrwydd, genedigaeth a chyfnod ôl-enedigol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 25 | 49 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gan fod y Senedd wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwygio, ac wedi gwrthod y gwelliant i'r cynnig, gwrthodwyd y cynnig.**

## 9 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.26

## 10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.32

**NDM8373** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Effaith defnyddio e-sigaréts ar draws Cymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.57

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 17 Hydref 2023**